

Cymraeg mewn
Ymarfer Proffesiynol 2
2025-26




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 5 : Darllen a chwestiynu

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrando




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri




Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar
y byrddau
gwyn




Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth
i'r
Portffolio

Nod y ddarlith:

- Pwysigrwydd datblygu sgiliau darllen.
- Cwestiynu.
- Tasg Portffolio.

Y daith at ddarllen

Darllen cynnar

Cynhaliwyd ymchwil hirdymor (hydredol) gan Wells (1986) ar ddylanwad darllen storïau ar ddatblygiad llythrennedd plant. Canfuwyd bod y plant hynny oedd yn cael stori'n rheolaidd yn gwneud **cynnydd da fel darllenwyr** o'u cymharu â phlant nad oeddynt yn cael rhywun yn darllen iddynt..... Ymddengys felly bod darllen storïau i blant **yn bwysig i'w datblygiad**


(Siencyn a Richards, 2010, 170)

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.






Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gan ein helpu hefyd i ddysgu mwy am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storïwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwledd i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach.

(Cwricwlwm i Gymru, 2020, 133)



Llyfrau ffuglen




a llawer
mwy!!



- 33 Mewn llawer o ysgolion effeithiol, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 gynnydd cryf yn eu medrau darllen. Yn aml, maent yn gwneud hynny â chymorth gan ymarferwyr, sy'n gwrando arnynt yn darllen ac yn eu hannog i ddefnyddio strategaethau darllen i fynd i'r afael â thestunau anghyfarwydd neu heriol. Yn aml, mae dysgwyr yn cyd-ddarllen testun ehangach ac yn mwynhau ei drafod gyda'i gilydd. Mae'r gweithgarwch dysgu ar y cyd hwn yn helpu atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o'r strategaethau y gallant eu defnyddio i wella eu medrau datgodio a'u rhuglder wrth ddarllen. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen dan arweiniad bwriadus gydag ymarferwyr. Pan gânt eu cynllunio'n dda, mae'r sesiynau hyn yn helpu dysgwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testun. Er enghraifft, maent yn dysgu ystyr geiriau anghyfarwydd ac yn dwysau eu dealltwriaeth o nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol.

Datblygu diwylliant o ddarllen

- Darllen i'r disgyblion / modelu darllen da
- Darllen unigol
- Darllen pâr (gydag oedolyn neu gyd-ddisgybl)
- Darllen ar y cyd
- Darllen grŵp (dan arweiniad)



Darllenwyr annibynnol / mwynhâd

Safonau darllen yn codi (Profion Darllen Cenedlaethol / Asesiadau PISA)

Beth ydy darllen grŵp?

- Mae disgyblion yn darllen testun sydd yn addas ar gyfer eu lefel darllen bersonol.
- Mae 4- 6 disgybl yn yr un grŵp.
- Mae'r 'darllen' yn digwydd dan arweiniad athro.
- Mae 'darllen grŵp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fagu hyder mewn darllen.
- Mae 'darllen grŵp' yn rhoi amser a chyfle i drafod a chynnig strategaethau gwahanol wrth ddatblygu sgiliau darllen.
- Mae 'darllen grŵp' yn rhoi cyfle i ddisgyblion fwynhau llyfrau/ testun darllen.
- Mae 'darllen grŵp' yn datblygu sgiliau Llafar, Gwrando a Darllen disgyblion.



Beth ydy darllen ar y cyd?

- Wrth ddarllen ar y cyd, mae'r athro yn nodi'n glir sut dylai darllenwyr da ymdrin â thestun drwy fodelu'r broses.
- Mae'r athro yn dangos sut mae darllenwyr da yn meddwl wrth iddyn nhw ddarllen testun.
- Gwneir hyn mewn sefyllfa dosbarth gyfan lle mae pawb yn gallu gweld y testun.
- Mae'r athro yn darllen, yn modelu'r darllen ac yn arwain y drafodaeth.
- Mae'r disgyblion yn gwrando, yn ymuno ac yn dilyn y darllen ac yn dysgu sut i ddadansoddi'r testun (dan arweiniad yr athro).
- Mae darllen ar y cyd yn strategaeth bwerus sy'n gallu helpu dysgwyr ddatblygu eu sgiliau darllen o fewn cyd-destun dosbarth cyfan, ac ar yr un pryd, ymestyn eu gwybodaeth bynciol.

(Llywodraeth Cymru, 2010)

Wrth ddarllen ar y cyd, trafodwch ...

- Am beth mae'r testun yn sôn?
- Pa fath o destun ydy e?
- Beth ydy ei ddiben?
- Oes unrhyw eirfa yn achosi problemau? (modelu strategaethau)
- Oes unrhyw frawddeg sy'n anodd i'w deall?
- Ydy'r testun yn un llwyddiannus? Pam?
- Beth ddysgoch chi?



Mae “darllen” yn fwy nag edrych ar air a gallu ei ddweud neu ei ysgrifennu. Mae “darllen” yn golygu “deall” a “dehongli”. Os na fyddwn i’n annog ein plant o oedran ifanc i ymdrechu i ddeall a dehongli’r byd, yna rydan ni’n cyfyngu eu dyfodol.

Anni Llyn, 2015

[Barod i ddarllen](#)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Cwestiynau ...

Mae dau brif fath o gwestiwn ...

cwestiwn caeëdig:

ateb penodol yn unig
e.e. ateb cadarnhaol
neu negyddol.

cwestiwn agored:

amrywiaeth o atebion
posib.

Cwestiynau caeëdig ...

Mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg, felly mae'n bwysig eich bod chi'n modelu'r patrymau cywir ar gyfer y disgyblion:

Oes

Nac oes

Ydy

Nac ydy

Do

Naddo

Oedd

Nac oedd

Ie

Nage

Cei

Na chei

Ydw

Nac ydw

Ffurio cwestiynau caeëdig ...

Oes > ffurfiau amhendant

(Is there a...?/ Are there any...?)

Cwestiwn enghreifftiol:

Oes lluniau lliwgar ar y clawr?

Atebion: Oes/ Nac oes.

Ydy (ydy'r) > ffurfiau pendant

(Is (the)...?/ Are (the) ...?)

Cwestiwn enghreifftiol:

Ydy'r prif gymeriad yn gas?

Atebion: Ydy/ Nac ydy.

Cofiwch:

Mae cymorth yn y cwestiwn o ran sut mae ateb y cwestiynau hyn.

Y presennol



Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn yn y presennol, defnyddiwch y patrwm:
Wyt ti...? e.e. Wyt ti'n hoffi'r stori?

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw.**

Pan fyddwch chi'n gofyn cwestiwn i rywun hŷn, i ddangos parch (e.e. at y prifathro)
neu i fwy nag un person, defnyddiwch y patrwm:
Ydych chi ...?

Atebion posib: **Ydw/ Nac ydw/ Ydyn/ Nac ydyn.**

Y presennol



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
Ydw i...?	Wyt, rwyt ti Ydych, rydych chi	Nac wyt, dwyt ti ddim Nac ydych, dydych chi ddim
Wyt ti'n...?	Ydw, rydw i'n	Nac ydw, dydw i ddim yn
Ydy e'n/hi'n...?	Ydy, mae e'n/hi'n	Nac ydy, dydy e/hi ddim yn
Ydy Sian yn... ?	Ydy, mae Sian yn	Nac ydy, dydy Sian ddim yn
Ydy'r plant yn ...?	Ydyn, mae'r plant yn	Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn
Ydyn ni'n ...?	Ydyn, rydyn ni'n Ydych, rydych chi'n	Nac ydyn, dydyn ni ddim yn Nac ydych, dydych chi ddim yn
Ydych chi'n...?	Ydw, rydw i'n Ydyn, rydyn ni'n	Nac ydw, dydw i ddim yn Nac ydyn, dydyn ni ddim yn
Ydyn nhw'n...?	Ydyn, maen nhw'n	Nac ydyn, dydyn nhw ddim yn

Y gorffennol



Os ydy cwestiwn yn defnyddio ffurf gorffennol y ferf, yna **'do'** a **'naddo'** fydd yr atebion.


Er enghraifft:

Wnest ti orffen darllen y stori? Do. / Naddo.

Orffennaist di ddarllen y stori? Do. / Naddo.

Ddarllenodd e nofel neithiwr? Do. / Naddo.

Y gorffennol cryno



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
<u>B</u> rynais i?	Do , prynais i	Naddo , <u>ph</u> rynais i <u>dd</u> im
<u>D</u> eimlaist ti?	Do , teimlais i	Naddo , <u>th</u> eimlais i <u>dd</u> im
<u>G</u> afodd e / hi?	Do , cafodd e/hi	Naddo , <u>ch</u> afodd e/hi <u>dd</u> im
<u>F</u> wytodd hi?	Do , bwyttodd hi	Naddo , <u>f</u> wytodd hi <u>dd</u> im
<u>D</u> darllenodd Siôn?	Do , darllenodd Siôn	Naddo , <u>dd</u> arllenodd Siôn <u>dd</u> im
<u>W</u> naeth y plant?	Do , gwnaeth y plant	Naddo , <u>w</u> naeth y plant <u>dd</u> im
<u>L</u> iwioch chi?	Do , lliwioch chi	Naddo , <u>l</u> iwioch chi <u>dd</u> im
<u>F</u> entron ni?	Do , mentron ni	Naddo , <u>f</u> entron ni <u>dd</u> im
<u>R</u> edon nhw?	Do , rhedon nhw	Naddo , <u>r</u> edon ni <u>dd</u> im

Yr amherffaith



Cwestiwn	Ateb cadarnhaol	Ateb negyddol
Oeddwn i'n...?	Oeddet , roeddet ti'n Oeddech , roeddech chi'n	Nac oeddet , doeddet ti ddim yn Nac oeddech , doeddech chi ddim yn
Oeddet ti'n ...?	Oeddwn , roeddwn i'n	Nac oeddwn , doeddwn i ddim yn
Oedd e'n/ hi'n ...?	Oedd , roedd e'n/ hi'n	Nac oedd , doedd e/hi ddim yn
Oedd Siôn yn ...?	Oedd , roedd Siôn yn	Nac oedd , doedd Siôn ddim yn
Oedd y plant yn ...?	Oedd , roedd y plant yn	Nac oedd , doedd y plant ddim yn
Oedden ni'n ...?	Oedden , roedden ni'n Oeddech , roeddech chi'n	Nac oedden , doedden ni ddim yn Nac oeddech , doeddech chi ddim yn
Oeddech chi'n ...?	Oeddwn , roeddwn i'n Oedden , roedden ni'n	Nac oeddwn , doeddwn i ddim yn Nac oedden , doedden ni ddim yn
Oedden nhw'n darllen yn ...?	Oedden , roedden nhw'n	Nac oedden , doedden nhw ddim yn



Cwestiynau pwysleisiol



Os ydy cwestiwn yn cael ei ofyn mewn ffordd bwysleisiol, hynny yw, trwy roi'r pwyslais ar ddechrau'r cwestiwn, yna '**ie**' a '**nage**' fydd yr atebion.

Er enghraifft:

Carwyn oedd y cawr blin? **ie**. / **Nage**.

Clwb Dre y Bont enillodd y gêm? **ie**. / **Nage**.


Nel oedd eich hoff gymeriad? **ie**. / **Nage**.




Beth?

**Mwy o gwestiynau
caeëdig.**

Fel arfer bydd ateb byr a
phenodol ar gyfer y
cwestiynau hyn.



Pa?



Pwy?



Faint?



Beth ydych chi'n sylwi arno?

Pa + enw = Treigladd Meddal

Pa gamau wnest ti eu dilyn?

Pa liw hoffet ti?

Pa + enw + berf = Treigladd Meddal

Pa lyfrau ddarllenaist ti?

Pwy + berf = Treigladd Meddal

Pwy welodd?

Faint + berf = Treigladd Meddal

Faint dalon nhw...?

Pa liw ydy'r
cylch?

Pwy wnaeth y
gwaith
arbennig hwn?

Faint o bobl
welodd y gêm
yn y Stadiwm?

Faint fyddai
dau afal a
dwy oren?

Y treigladd meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
								
b	d	g	f	dd	-	l	f	r

Sawl neu faint, beth ydy'r gwahaniaeth?

Sawl?

Defnyddio gydag enw **unigol** yn unig.

Sawl **cymeriad** sydd ar y clawr?



Sawl llyfrau sydd yn y pentwr?



Faint?

Defnyddio gydag enwau **lluosog** ar ôl yr arddodiad 'o'. Cofiwch am y treigladau meddal ar ôl 'o'.

Faint o **lyfrau** sydd ar y bwrdd?



Faint o gymeriad sydd ar y clawr?




Sawl neu faint?



1. _____ o waith cartref sydd gyda ti?
2. _____ dosbarth sy'n mynd i'r gwasanaeth?
3. _____ enghraifft sydd ar y daflen?
4. _____ fyddai tri llusosi â chwech?
5. _____ disgybl sy'n mynd ar y daith i Wlad Belg?

Eich tro chi...



Mewn parau, edrychwch ar glawr eich llyfrau ac
ysgrifennwch 5 cwestiwn gan ddefnyddio
cwestiynau caeëdig e.e.

Oes...? / Ydy....?/ Beth...? Pa....?
Sawl...?/ Faint...? Pwy...?

Cwestiynau agored ...

Bydd cwestiynau agored yn caniatáu amrywiaeth o atebion.
Byddan nhw'n dechrau gyda'r geiriau gofynnol hyn ...

Pa ...?

Sut ...?

Ble ...?


Beth ...?

Pwy ...?

Faint ..?

Pryd ...?


Pam ...?




Sut?

Cwestiynau agored.


Mae nifer o atebion i
gwestiynau agored.



Pryd?




Beth?



Pam?




Sylwch ar y treigladau!



1. Sut + enw = **Treigladau Meddal**
Enghraifft: Sut ddillad oedd gan y tywysog?
2. Sut + berf = **DIM**
Enghraifft: Sut **cawsoch** yr ateb?
3. **Tasg**: Meddyliwch am **ddau** gwestiwn yn dechrau gyda 'Sut'...

Cwestiynau agored ...



Pa **i**un
sydd yn
fwy clir?

Pa **g**ân
ganaist ti?

Pa un
ddewisoch
chi?

Sut
Frenhines
oedd hi?

Sut dest ti
i'r ysgol?

Ble byddwch
chi'n
cystadlu?

Beth
ddywedodd
y rhiant?

Pwy **f**ydd
yn ennill?

Faint
daloch
chi?

Pryd
gwelaist ti'r
gêm?

Pam
gwnest ti
hynny?

Cam cynnydd 1

Cam cynnydd 2

Cam cynnydd 3

Cam cynnydd 4

Cam cynnydd 5

Rwy'n gallu deall a defnyddio **cysyniadau sylfaenol mewn iaith**.

Rwy'n ymwybodol o sut mae geiriau'n cael eu gwahanu gan fylchau.

Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.

Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.

Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.

Rwy'n gallu siarad am yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen neu'i weld, a mynegi barn syml.

Rwy'n gallu darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi.

Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae **gramadeg** ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.

Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.

Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.

Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan eu defnyddio i ffurfio fy nghasgliadau fy hun.

Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, **gramadeg** gan gynnwys **cystrawen**, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.

Rwy'n gallu darllen gydag empathi i barchu a gwerthfawrogi'n feirniadol bersbectif gwahanol bobl, gan ddefnyddio hyn i ffurfio fy nghasgliadau ystyriol fy hun.



Canllawiau
Cwricwlwm i Gymru




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	Rwy'n gallu gwranddo a darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu.	Rwy'n gallu gwranddo a darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau gan ddefnyddio'n gywir yr hyn rwy'n ei ddysgu wrth i mi gyfathrebu.	Rwy'n gallu gwranddo a darllen i ddatblygu ystod eang o eirfa gyffredinol a phenodol, ac rwy'n gallu eu defnyddio'n fanwl gywir mewn gwahanol gyd-destunau.
---	---	---	---	---




Eich tro chi...



Mewn parau, ysgrifennwch 5 cwestiwn gan ddefnyddio cwestiynau agored.

Beth am feddwl am dasgau posib?



Gofynion Aseu

Modwl 10 credyd

Portffolio yn cynnwys:

cynllun gwers
adnoddau
recordiad o'r wers feicro
gwerthusiad o'r wers (BA2 yn unig)

****ffocws ar bedagogeg a
strategaethau dysgu ac addysgu***

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith (gofyniad LIC)

Portffolio yn cynnwys:

tystiolaeth o'ch sgiliau iaith Gymraeg ar
gyfer siarad, ysgrifennu, gwranddo a
darllen.

Tystiolaeth o strategaethau dysgu ac
addysgu – gwaith y modwl 10 credyd.

Tasgau Darllen / Llafar a Darllen



1. Tasgau ar gyfer portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith.
2. Bydd cyfle gyda chi ddewis tasg ar gyfer asesu eich sgiliau darllen/ llafar a darllen. Mae'r cwestiynau ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:
3. <https://www.porth.ac.uk/cy/group-collection/tasgau-asesu-a-datblygu-sgiliau-iaith-athrawon>

Chwilio am adnodd

Pwnc

Math o adnodd

Lefel

Tagiau

CHWILIO

Ychwanegwyd: 16/10/2023 |  2.2K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau Iaith Athrawon

Disgrifiad

Dyma gasgliad o dasgau sy'n gallu cael eu defnyddio i ddatblygu ac asesu sgiliau iaith ymarferwyr addysg yn erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau iaith i Ymarferwyr Addysg**. Mae'r casgliad yn cynnwys tasgau ar gyfer pob sgil a phob lefel yn y Fframwaith. Mae'r llyfyrnau PDF sy'n cynnwys holl dasgau'r lefel dan sylw, ar gael ar gyfer bob lefel o'r Fframwaith. Yn ogystal, mae'r tasgau ar gael i'w lawrlwytho yn unigol ar ffurf dogfenau Word.

Os na fydd y dolenni yn agor y ddogfen mewn tab newydd, yna bydd y ddogfen wedi ei lawrlwytho (edrychwch yn y ffolder lawrlwythiadau ar eich cyfrifiadur).

Tagiau

 Sgiliau iaith  Addysg  Hyfforddiant Athrawon  Addysg Gychwynnol Athrawon  Adnodd Coleg Cymraeg



TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON



Ychwanegwyd: 30/06/2024 |  392

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau iaith Athrawon: Addysgeg



LEFEL MYNEDIAD

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON



Ychwanegwyd: 16/10/2023 |  1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau iaith Athrawon: Mynediad



LEFEL SYLFAEN

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON



Ychwanegwyd: 16/10/2023 |  1K

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau iaith Athrawon: Sylfaen



LEFEL CANOLRADD

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON



Ychwanegwyd: 16/10/2023 |  879

Tasgau Asesu a Datblygu Sgiliau iaith Athrawon: Canolradd



LEFEL HYFEDREDD

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON





LEFEL HYFEDREDD NEU UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON





LEFEL UWCH

TASGAU ASESU A DATBLYGU SGILIAU IAITH ATHRAWON



Iaith ac Ymadroddion ar gyfer Mynegi Barn

A dweud y gwir	Anghytunaf	Beth bynnag
Byddai'n braf petai...	Byddai'n dda petai...	Credaf
Cytunaf	Dadl arall	Does dim amheuaeth fod...
Does dim dwywaith nad...	Does dim rhyfedd mai...	Dylid cofio mai...
Er hyn...	Felly...	Fodd bynnag
Gwaetha'r modd...	Gŵyr pawb...	Heb os nac oni bai
Heb unrhyw amheuaeth	Hoffwn	I gloi...
O ganlyniad, teimlaf...	Onid yw...	Mae lle i gredu...
Mae'n amlwg y bydd angen...	Mae'n amlwg fod angen...	Mae'n anhygoel fod...
Mae'n anodd credu...	Mae'n bwysig iawn nodi...	Mae'n hen bryd
Mae'n rhaid cydnabod...	Meddyliaf	Pwy all beidio â...
Pwysig yw nodi...	Pwynt arall	Rwy'n argyhoeddedig...
Rwyf o'r farn...	Rwy'n rhyfeddu	Rydw i'n meddwl
Rhaid cofio	Teimlaf	Wedi'r cyfan...
Wrth reswm...	Y gwir cas yw...	Y gwirionedd yw mai...
Yn ail	Yn anffodus...	Yn bendant
Yn bersonol...	Yn ddi-os, fe fydd...	Yn drydydd
Yn fy marn i...	Yn gyntaf	Yn ôl rhai
Yn ôl pob tebyg	Yn sicr	Yn wir



'Gair yn
Gymorth'



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru